**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **27 MEDI 2010** |
| TEITL | **CYNNYRCH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **AMLINELLU GWAITH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD HYD AT 31 AWST 2010** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR ARCHWILIO A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNNWYS A CHEFNOGI'R ARGYMHELLION SYDD EISIOES WEDI'U CYFLWYNO I'R GWASANAETHAU PERTHNASOL ER GWEITHREDIAD** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad yma yn crynhoi gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Mehefin 2010 hyd at 31 Awst 2010.

## 2. GWAITH A GWBLHAWYD YN Y CYFNOD

2.1 Cwblhawyd y gwaith canlynol yn y cyfnod hyd at 31 Awst 2010:

| Disgrifiad | Nifer |
|---|---:|
| Adroddiadau am Archwiliadau o'r Cynllun Gweithredol | 24 |
| Archwiliadau Dilyniant | 5 |
| Archwiliadau Ymatebol | 1 |

Ceir manylion pellach ar y gwaith yma yng nghorff yr adroddiad hwn ac yn yr atodiadau amgaeëdig.

## 2.2 Adroddiadau Archwilio

2.2.1 Mae'r tabl canlynol yn gosod allan yr archwiliadau o'r cynllun a gwblhawyd yn y cyfnod hyd at 31 Awst 2010, gan ddangos y categori barn perthnasol a chyfeiriad i'r atodiad perthnasol.

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| Grant Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Gyfer Arloesi Mewn Ysgolion Bach | Addysg | Adnoddau | B | Atodiad 1 |
| Grant y Fenter Brecwastau Am Ddim mewn Ysgolion Cynradd | Addysg | Adnoddau | B | Atodiad 2 |
| Grant Ysgolion Bro Llywodraeth Cynulliad Cymru | Addysg | Adnoddau | B | Atodiad 3 |
| Grantiau Addysg - Estyniad Rhaglen Datblygu Meddwl ac Asesu ar Gyfer Dysgu Llywodraeth Cynulliad Cymru | Addysg | Adnoddau | A | Atodiad 4 |
| Gweinyddu Grantiau a Benthyciadau Myfyrwyr | Addysg | Adnoddau | B | Atodiad 5 |
| Ysgol Eifionydd | Addysg | Ysgolion | A | Atodiad 6 |
| Ysgol Pendalar | Addysg | Ysgolion | B | Atodiad 7 |
| Trefn Archebu Gwestai | Adnoddau Dynol | Cefnogol | B | Atodiad 8 |
| Archwiliadau Iechyd a diogelwch | Adnoddau Dynol | Iechyd a Diogelwch | B | Atodiad 9 |
| Cytundebau Escrow | Corfforaethol | | C | Atodiad 10 |
| Prydlondeb Talu Anfonebau | Corfforaethol | | B | Atodiad 11 |
| Rheolaeth Gyllidebol | Corfforaethol | | B | Atodiad 12 |
| Paratoadau ar gyfer IFRS - Trefniadau Prosiect | Cyllid | Cyfrifeg | A | Atodiad 13 |
| Tendr Bancio | Cyllid | Cyfrifeg | A | Atodiad 14 |
| Bryn Afon | Darparu a Hamdden | Preswyl a Dydd | C | Atodiad 15 |
| Cartrefi Preswyl - Cronfeydd Answyddogol | Darparu a Hamdden | Preswyl a Dydd | B | Atodiad 16 |

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN | ATODIAD |
|---|---|---|---|---|
| Cydymffurfiaeth gyda gofynion CoCo (Parth GCSx) | Gofal Cwsmer | Technoleg Gwybodaeth | C | Atodiad 17 |
| Patrymau Gwariant Gwasanaethau Anabledd Dysgu | Gwasanaethau Cymdeithasol | Oedolion | Dim Categori | Atodiad 18 |
| Trefniadau Apwyntî a Dirprwyaeth | Gwasanaethau Cymdeithasol | Ar draws yr adran | B | Atodiad 19 |
| Rheolaeth Fflyd | Priffyrdd a Bwrdeistrefol | Fflyd | B | Atodiad 20 |
| Gwarchod y Cyhoedd - Defnydd Flare; Rheoli Gwaith | Rheoleiddio (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd) | Gwarchod y Cyhoedd | B | Atodiad 21 |
| Trwyddedau Tacsis | Rheoleiddio (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd) | Gwarchod y Cyhoedd | B | Atodiad 22 |
| Gorchmynion Ffyrdd | Rheoleiddio (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd) | Trafnidiaeth a Gofal Stryd | C | Atodiad 23 |
| Partneriaeth Gaffael Gogledd Cymru | Strategol a Gwella | Caffael ac Effeithlonrwydd | B | Atodiad 24 |

2.2.2 Mae categorïau barn yr adroddiadau yn datgan y canlynol:

Barn "A" Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.

Barn "B" Mae rheolaethau mewn lle, a gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol gan fod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau.

Barn "C" Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth.

Barn "CH" Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan nad oes rheolaethau derbyniol yn bodoli, a darganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth hyn.

**System RAISE**

2.2.4 Yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio ym mis Mehefin, gofynwyd am fwy o fanylion ynglyn â'r archwiliad o'r system RAISE (system reolaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol) y cyfeirwyd ato yn yr adroddiad chwarterol, ac a gyflawnwyd fel rhan o waith Cynllun Archwilio 2009/10.

2.2.5 Adolygiad 'lefel uchel' o'r cynnydd ar y prosiect RAISE a gynhaliwyd yn 2009/10. Ym Mawrth 2010, cyfarfu'r archwiliwr gyda rheolwr y prosiect RAISE er mwyn canfod ac adrodd ar statws presennol y gwaith yma. Cafwyd ar ddeall fod cyflenwyr y system, sef CareWorks, yn terfynu cynhyrchu fersiynau newydd o RAISE ar ôl rhyddhau'r fersiwn nesaf, sef fersiwn 6.

2.2.6 Nodwyd fod cytundeb cefnogaeth tair mlynedd ar gyfer y system RAISE wedi ei gynnig i'r consortiwm o awdurdodau lleol sy'n defnyddio'r system. Byddai'r cytundeb hwn yn weithredol o Ebrill 2011 ymlaen petai yn cael ei dderbyn. Ar adeg yr archwiliad, roedd proses o werthuso opsiynau yn cael ei gynnal er mwyn adnabod y dewis gorau i aelodau'r consortiwm.

2.2.7 Ar y cyfan, gwelwyd fod cynlluniau gwaith, monitro amserlen, a phrosesau blaenoriaethu mewn lle ar gyfer y prosiect, a bod tystiolaeth fod yr amcanion o sicrhau fod y system yn cael ei ddefnyddio ar gyfer yr holl wasanaethau yn dechrau cael eu gwireddu. Fodd bynnag, teimlir bod y materion ynglyn â chytundeb darpariaeth a chefnogaeth y meddalwedd i'r dyfodol angen ystyriaeth priodol a dwys gan eu bod yn ffactorau anocheladwy a fyddai yn gallu amharu yn sylweddol ar lwyddiant tymor hir y prosiect yma.

## 2.3 Archwiliadau Dilyniant

2.3.1 Mae'r tabl isod yn crynhoi'r gwaith dilyniant a gwblhawyd yn ystod y cyfnod:

| TEITL | ADRAN | GWASANAETH | BARN DILYNIANT |
|---|---|---|---|
| Rheolaeth Cyfluniad | Gofal Cwsmer | Technoleg Gwybodaeth | **Derbyniol** |
| Canolfan Hamdden Penllyn | Darparu a Hamdden | Hamdden | **Derbyniol** |
| Canolfan Denis Arfon | Darparu a Hamdden | Hamdden | **Derbyniol** |
| Cefn Rodyn, Dolgellau | Darparu a Hamdden | Preswyl a Dydd | **Derbyniol** |
| Cynnal Tiroedd | Priffyrdd a Bwrdeistrefol | Uned Waith Bwrdeistrefol | **Derbyniol** |

2.3.2 Gosodir casgliadau gwaith dilyniant mewn un o bedwar categori:

**Rhagorol** – pob un o'r argymhellion wedi eu gweithredu yn unol â'r disgwyl.

**Derbyniol** – y rhan fwyaf o'r argymhellion, gan gynnwys y mwyafrif o'r argymhellion "hanfodol", wedi eu gweithredu yn ôl y disgwyl.

**Anfoddhaol** – nifer o'r argymhellion heb eu gweithredu.

**Annerbyniol** – y mwyafrif o'r argymhellion (gan gynnwys argymhellion pwysig) heb eu gweithredu, a dim tystiolaeth o ymdrech i wella rheolaeth fewnol.

2.3.3 Mae'r rhestr isod yn dangos yr Adroddiadau Barn 'C' neu 'CH' a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio fel atodiadau i'r adroddiadau chwarterol, lle nad yw'r adroddiad dilyniant wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor eto. Mae'r rhestr yn dangos y dyddiad sy'n darged cwblhau pob un o'r archwiliadau dilyniant hyn:

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 30 Medi 2010**

Lwfansau Mabwysiadu, Gorchymyn Preswyl a Gwarcheidiaeth Arbennig
Casglu Data Gwasanaethau Cymdeithasol
Canolfan Hamdden Plas Ffrancon

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 31 Rhagfyr 2010**

Gorchmynion Ffyrdd
Cydymffurfiaeth gyda CoCo (Parth GCSx)
System Cynllunio Dyfodol Plant a Phobl Ifanc Mewn Gofal
Ôl-ddyledion Arian cinio, Ysgolion Cynradd
Trefniadau Recriwtio Ysgolion Cynradd

**Targed Cwblhau: Chwarter yn diweddu 31 Mawrth 2011**

Cytundebau Escrow
Bryn Afon
Trefniadau Cofrestru Genedigaethau, Priodasau a Marwolaethau

### 2.4 Archwiliad Ymatebol

2.4.1 Cwblhawyd ymchwiliad ymatebol i wariant yn Ysgol Tanygrisiau ar gais y Pennaeth Cyllid. Mae crynodeb gweithredol yr adroddiad archwiliad a gynhyrchwyd wedi ei gynnwys fel Atodiad 25.

## 3. GWAITH AR Y GWEILL

3.1 Roedd y gwaith canlynol ar y gweill ar 1 Medi 2010.

### 3.2 Adroddiadau Drafft wedi eu rhyddhau

- Ysgol Botwnnog *(Addysg)*
- Gwaredu Gwastraff Cyfrinachol *(Corfforaethol)*
- Uned Rheoli Cofnodion *(Gofal Cwsmer)*
- Trefniadau Cau Bryn Llywelyn *(Darparu a Hamdden)*
- Costau Toiledau Cyhoeddus *(Priffyrdd a Bwrdeistrefol)*
- Cyflwr Ffyrdd - Archwiliadau a chwynion y cyhoedd *(Priffyrdd a Bwrdeistrefol)*

### 3.3 Archwiliadau yn mynd rhagddynt

- Ysgol Ardudwy *(Addysg)*
- Ysgol Coed Menai *(Addysg)*
- Ysgol Dyffryn Nantlle *(Addysg)*
- Ysgol Dyffryn Ogwen *(Addysg)*
- Ysgol Friars *(Addysg)*
- Ysgol Glan Y Mor *(Addysg)*
- Ysgol Tryfan *(Addysg)*
- Gwirio Rhestrau Gweithwyr *(Adnoddau Dynol)*
- Cyn-stoc Tai - Arian Dargadw *(Corfforaethol)*
- Defnydd Ynni *(Corfforaethol)*
- NFI (Y Fenter Twyll Genedlaethol) *(Corfforaethol)*
- PQQ a Thendr Ysgol yr Hendre *(Corfforaethol)*
- Rheolaeth fflecsi / TOIL / gweithio o gartref *(Corfforaethol)*
- Rheolaeth Ffonau Symudol *(Corfforaethol)*
- System e-Dendro *(Corfforaethol)*
- Trefniadau Adolygu Perfformiad Staff - Gwerthuso *(Corfforaethol)*
- Trefniadau Atal Twyll - "Llyfr Coch" CIPFA *(Corfforaethol)*
- Trefniadau Datgelu / Ymwybyddiaeth o'r Polisi Canu'r Gloch *(Corfforaethol)*
- Cyfrifeg Cyfalaf *(Cyllid)*
- Gweithredu Newidiadau Cyflog *(Cyllid)*
- Paratoadau ar gyfer IFRS - Prydlesi *(Cyllid)*
- Trefniadau derbyn arian *(Cyllid)*
- Canolfan Hamdden Glan Wnion *(Darparu a Hamdden)*
- Canolfan Hamdden Glaslyn *(Darparu a Hamdden)*
- Canolfan Hamdden Plas Silyn *(Darparu a Hamdden)*
- Canolfan Hamdden y Pafiliwn *(Darparu a Hamdden)*
- Gweinyddu Meddyginiaeth yng nghartrefi'r Cyngor *(Darparu a Hamdden)*
- Neuadd Chwaraeon Bro Ffestiniog *(Darparu a Hamdden)*
- Rheolaeth Cronfeydd Answyddogol *(Darparu a Hamdden)*
- System Rheolaeth Gofal Cartref *(Darparu a Hamdden)*
- Gweinyddu'r Gofrestr Etholiadol *(Democratiaeth a Chyfreithiol)*
- Yr Argraffdy *(Democratiaeth a Chyfreithiol)*
- Trefniadau Trosglwyddo Hyfforddiant Gwynedd *(Economi a Chymuned)*
- Rheolaeth Asbestos *(Gofal Cwsmer)*
- Rheolaeth Dyfeisiadau *(Gofal Cwsmer)*
- Dilyniant - Canolfan Hamdden Plas Ffrancon *(Darparu a Hamdden)*
- Dilyniant - Lwfansau Mabwysiadu, Gorchymyn Preswyl a Gwarcheidiaeth Arbennig

*(Gwasanaethau Cymdeithasol)*

- Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru *(Priffyrdd a Bwrdeistrefol)*
- Cytundeb Fframwaith Cynnal Ffyrdd *(Priffyrdd a Bwrdeistrefol)*
- Uned Cludiant Integredig *(Rheoleiddio (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd))*
- Cyfrifon Terfynol Cynllun A499 *(Ymgynghoriaeth Gwynedd)*
- Ymgynghoriaeth Gwynedd - Dethol Contractwyr *(Ymgynghoriaeth Gwynedd)*

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn ar waith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Mehefin 2010 i 31 Awst 2010, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r argymhellion sydd eisoes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol er gweithrediad.

# GRANT LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU AR GYFER ARLOESI MEWN YSGOLION BACH
## Addysg

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau bod rheolaethau mewnol priodol ar gyfer gweinyddu arian 'Grant Arloesi Mewn Ysgolion Bach 2009/10'

Cwmpas yr Archwiliad
Mae archwiliad yn cwmpasu'r agweddau canlynol
- Bod trefn weinyddu priodol yn bodoli.
- Bod arian wedi ei ddyrannu'n deg.
- Bod yr arian wedi ei ddyrannu yn unol ag amodau a thelerau'r grant.

Prif Ddarganfyddiadau
Gwelwyd wrth archwilio sampl o ysgolion a dalgylchoedd a oedd wedi derbyn arian grant ar gyfer yr elfen cydweithio nad oedd y Swyddog Gwella Ansawdd Addysg Cynorthwyol wedi derbyn tystiolaeth megis:
- Anfonebau bysiau/tacsis;
- taflenni amser cymhorthyddion;
- taflenni amser athrawon llanw pan fod athrawon eraill yn cael eu rhyddhau

i gadarnhau bod yr arian wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer y pwrpas a nodwyd yn y cais gwreiddiol.

Mynegodd y Swyddog Gwella Ansawdd Addysg Cynorthwyol ei fod yn fyddiog bod yr ysgolion yn cadw'r dystiolaeth briodol yn yr ysgolion i gadarnhau gwariant y grant.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yng ngweinyddiaeth Grant Arloesi Mewn Ysgolion Bach gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Argymhelliad:**

- **Dylid sicrhau bod yr ysgolion yn cadw'r dystiolaeth briodol i gadarnhau gwariant y grant, gan y gallai Llywodraeth Cynulliad Cymru wneud cais am yr wybodaeth am gyfnod ar ôl i'r cyfnod grant ddod i ben.**

# GRANT Y FENTER BRECWASTAU AM DDIM MEWN YSGOLION CYNRADD
## Addysg

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau bod rheolaeth mewnol priodol ar gyfer gweinyddu arian 2009/10 'Grant y Fenter Brecwast am Ddim' yng Ngwynedd.

Cwmpas yr Archwiliad
Gwirio sampl o ysgolion o'r tair ardal yng Ngwynedd sydd yn darparu brecwast am ddim, er mwyn sicrhau bod y cynllun yn cael ei weinyddu yn gywir yn ogystal â gwirio bod ceisiadau cywir a prydlon yn cael eu gwneud i Lywodraeth Cynulliad Cymru am yr arian grant.

Prif Ddarganfyddiadau
Y prif ddarganfyddiadau yn deillio o'r archwiliad oedd nad oedd yr ysgolion o hyd yn cadw'r ddogfennaeth briodol megis ffurflenni caniatâd rhiant a'r cofrestri presenoldeb.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yng ngweinyddiaeth Grant y Fenter Brecwastau am Ddim mewn Ysgolion Cynradd gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau o hyn allan bod yr ysgolion yn gwneud yn siŵr eu bod yn cadw y ffurflenni caniatâd a dderbynnir gan y rhieni ar ffeil i gadarnhau bod y rhieni wedi rhoi caniatâd i'r plant dderbyn y brecwastau.**

- **Dylid sicrhau bod pob ysgol sydd yn darparu brecwastau am ddim yn cwblhau cofrestri presenoldeb yn nodi enwau'r plant sy'n derbyn brecwastau ar wahanol ddyddiau yn yr ysgol.**

- **Dylid sicrhau fod y blwch 'Ardystiwyd yn Gywir' yn cael ei gwblhau pob amser ar y taflenni PY44 'Dadansoddiad o Frecwastau a Weinyddwyd'.**

## GRANT YSGOLION BRO LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU
## Addysg

Bwriad yr Archwiliad

Sicrhau bod rheolaethau mewnol priodol ar gyfer gweinyddu arian 2009/10 'Grant Ysgolion Bro'.

Cwmpas yr Archwiliad

Mae'r archwiliad yn cwmpasu'r agweddau canlynol:

- Fod arian y grant yn cael ei ddefnyddio i'r pwrpas a nodir yng nghylchlythyr cyfarwyddid y Llywodraeth Cynulliad Cymru ddyddiedig Medi 2005 ac a nodir yn nhelerau ac amodau safonol grant 2009/10.
- Fod trosglwyddiadau o'r arian grant a wneir i'r ysgolion wedi eu trin yn gywir.
- Fod dogfennaeth briodol yn cael eu cyflwyno/eu cadw gan yr ysgolion i gefnogi'r gwariant.

Prif Ddarganfyddiadau

Y prif ddarganfyddiadau yn deillio o'r archwiliad oedd nad oes trefn bendant mewn lle o sicrhau bod dogfennaeth briodol yn cael ei dderbyn i gefnogi gwariant cyflogau fwy na dim cyn bod arian yn cael ei drosglwyddo i'r ysgolion.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yng ngweinyddiaeth y grant Ysgolion Bro gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod amserlenni / swydd-ddisgrifiadau yn cael eu derbyn i gyfiawnhau gwariant ar gyflogau neu o leiaf dylai'r ysgolion anfon dadnsoddiad o sut y maent wedi cyrraedd at y ffigyrau i mewn.**
- **Dylid sicrhau bod anfonebau priodol sydd yn cyd-fynd â'r taflenni amcangyfrifedig a dderbyniwyd yn cael eu derbyn i gefnogi cais tymor y gwanwyn 2010 Ysgol Syr Hugh Owen.**

# GRANT LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU I ESTYN Y RHAGLEN DATBLYGU AR GYFER MEDDWL AC ASESU AR GYFER DYSGU
## Addysg

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau bod rheolaethau mewnol priodol ar gyfer gweinyddu arian grant 2009/10 Llywodraeth Cynulliad Cymru i Estyn y Rhaglen Datblygu ar gyfer Meddwl ac Asesu ar Gyfer Dysgu.

Cwmpas yr Archwiliad
Mae'r archwiliad yn cwmpasu'r agweddau canlynol:

- Fod yr arian grant yn cael eu defnyddio i'r pwrpas a nodir yn nhelerau ac amodau grant 2009/10 yn ogystal ag yng nghylchlythyr cyfarwyddyd 2009/10 Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- Fod dogfennaeth briodol yn cael eu cadw i gefnogi'r gwariant.
- Fod trefn briodol o dderbyn arian cyfatebol gan yr awdurdodau sydd yn rhan o'r cynllun.

Prif Ddarganfyddiadau
Y prif ddarganfyddiadau yn deillio o'r archwiliad oedd bod tystiolaeth cryf i ddangos bod rheolaethau da yn bodoli gan Cwmni Cynnal ar gyfer gweinyddu'r grantiau.

**Barn yr Archwiliad**

**(A) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yng ngweinyddiaeth Grant Llywodraeth Cynulliad Cymru i Estyn y Rhaglen Datblygu ar gyfer Meddwl ac Asesu ar Gyfer Dysgu Llywodraeth Cynulliad Cymru gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.**

# GWEINYDDU GRANTIAU A BENTHYCIADAU MYFYRWYR
## Addysg

Bwriad yr Archwiliad

Sicrhau fod y rheolaethau mewnol disgwyliedig yn bodoli yn y modd y mae ceisiadau am Grantiau a Benthyciadau Myfyrwyr yn cael eu gweinyddu a bod cydymffurfiaeth gyda chanllawiau 'Archwilio Atal Twyll ar gyfer Cyllid Myfyrwyr Addysg Uwch' y Cynulliad.

Cwmpas yr Archwiliad

Archwilio sampl o geisiadau perthnasol i'r flwyddyn addysgol 2010/11 drwy wirio cywirdeb y ffurflenni cais a'r taliadau a wnaethpwyd.

Prif Ddarganfyddiadau

Y prif ddarganfyddiadau yn deillio o'r archwiliad oedd nad yw'r Gwasanaeth Adnoddau pob amser yn cydymffurfio gyda chanllawiau 'Archwilio Atal Twyll ar gyfer Cyllid Myfyrwyr Addysg Uwch' y Cynulliad.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yng ngweinyddu Grantiau a Benthyciadau Myfyrwyr gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod ffurflenni cais grant a dderbynnir gan y Gwasanaeth Adnoddau yn cael eu stampio gyda stamp dyddiad pryd derbynnir hwy.**

- **Dylid sicrhau mai'r gwir dyddiad y derbynnir y cais grant a osodir yn y system 'Portal' a nid y diwrnod mae'r cais yn cael ei fewnosod yn y system.**

- **Dylid cydymffurfio â Chanllawiau Archwilio Atal Twyll ar gyfer Cyllid Myfyrwyr Addysg Uwch drwy wireddu o leiaf 10% o'r bobl sydd yn arwyddo'r ffurflenni datganiad hunaniaeth 3ydd person ar gyfer unrhyw gais newydd a dderbynnir o hyn allan.**

- **Dylid sicrhau bod y ffigyrau incwm cywir yn cael eu mewnosod yn y system 'Portal' a dylai'r swyddog sy'n cymeradwyo'r cais sicrhau bod y ffigyrau cywir wedi eu mewnosod gan y swyddog a oedd yn gyfrifol am fewnosod y cais.**

- **Dylid cydymffurfio â Chanllawiau Archwilio Atal Twyll ar gyfer Cyllid Myfyrwyr Addysg Uwch drwy gysylltu gyda 10% o ddarparwyr gofal plant i dderbyn cadarnhad bod y ffigyrau maent yn ei godi yn cytuno gyda'r ffigyrau a nodwyd ar ffurflenni cais y myfyrwyr.**

# YSGOL EIFIONYDD
## Addysg

Bwriad yr Archwiliad

Sicrhau fod trefniadau Ysgol Eifionydd yn briodol er mwyn rheoli a lliniaru risgiau yn unol â Rheoliadau Ariannol Ysgolion, Cyfarwyddiadau Estyn a gweithdrefnau perthnasol eraill.

Cwmpas yr Archwiliad

Archwiliwyd y prif feysydd gwariant ac incwm yn ôl y cofnod yng nghyfriflyfr 2008/09 a 2009/10 (Cedar). Profwyd hefyd trefniadau'r ysgol er mwyn rheoli ystod amrywiol o risgiau.

Prif Ddarganfyddiadau

Cynhaliwyd profion archwilio ar 96 rheolaeth fewnol. Dangosodd y profion fod rheolaethau mewnol da yn bodoli yn 89 o'r meysydd hyn. Gwelwyd fod trefniadau rhagorol yn bodoli yn yr ysgol er mwyn rheoli a lliniaru risgiau. Mae trefniadau gweinyddol cryf a chadarn yn bodoli yn yr ysgol gyda'r corff llywodraethol yn rhan allweddol o unrhyw benderfyniadau cyllidebol a wneir.
Mae'r 7 o'r 8 argymhelliad yn yr adroddiad eisoes wedi eu trafod gyda'r Pennaeth a'r Swyddog Gweinyddol a'u gweithrediad wedi eu cytuno.

**Barn yr Archwiliad**

**(A) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn Ysgol Eifionydd gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylai'r ysgol greu polisi trwyddedau meddalwedd a sicrhau fod pob aelod o staff yr ysgol yn derbyn copi o'r polisi.**

- **Dylid sicrhau fod y rhestr meddalwedd yn nodi lleoliad y meddalwedd h.y. pa gyfrifiadur a pha adran maent wedi eu lleoli.**

- **Dylid sicrhau fod yr elfen TAW yn cael ei ddangos ar geisiadau ad-daliad cyfrif imprest pryd y cyflwynir derbynnebau TAW am ad-daliad.**

- **Ni ddylid nodi ffigwr TAW yn y golofn TAW ar y cais ad-daliad cyfrif imprest, oni bai bod derbynneb TAW priodol yn cael ei gyflwyno gyda'r cais.**

# YSGOL PENDALAR
## Addysg

Bwriad yr Archwiliad
Sicrhau fod trefniadau Ysgol Pendalar yn briodol er mwyn rheoli a lliniaru risgiau yn unol â Rheoliadau Ariannol Ysgolion, Chyfarwyddiadau Estyn a gweithdrefnau perthnasol eraill.

Cwmpas yr Archwiliad
Archwiliwyd y prif feysydd gwariant ac incwm yn ôl y cofnod yng nghyfriflyfr 2008/09 a 2009/10 (Cedar). Profwyd hefyd trefniadau'r ysgol er mwyn rheoli ystod amrywiol o risgiau.

Prif Ddarganfyddiadau
Cynhaliwyd profion archwilio ar 88 o reolaethau mewnol. Dangosodd y profion fod rheolaethau mewnol da yn bodoli mewn 65 o'r meysydd hyn. Y prif ddarganfyddiadau yn deillio o'r archwiliad yw :

- Yr addasiadau i'r gyllideb drafft ddim yn cael eu gosod ar y system FMS.
- Nid yw cofnodion y Llywodraethwyr yn cynnwys cofnodion manwl o'r hyn a drafodwyd parthed monitro'r gyllideb.
- Nid oes cofnod o bwy a phryd y gwnaethpwyd yr arolygiad diogelwch o'r Bws Mini.
- Y Corff Llywodraethol ddim wedi ei gyfansoddi yn unol â'r Offeryn.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Ysgol Pendalar gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau mai un o'r Penaethiaid Cynorthwyol sy'n ardystio taflenni yn absenoldeb y Pennaeth.**
- **Dylid sicrhau fod unrhyw addasiadau i'r gyllideb drafft yn cael eu gosod ar y system FMS.**
- **Dylai'r Pennaeth gyflwyno adroddiadau ar fonitro'r gyllideb i'r Is-Bwyllgor Cyllid neu'r Corff Llywodraethol unwaith y tymor o leiaf.**
- **Dylai Clerc y Llywodraethwyr gynnwys cofnodion manwl o'r hyn a drafodwyd parthed monitro'r gyllideb.**
- **Dylai'r ysgol ystyried cael polisi trwyddedau meddalwedd a dylid sicrhau fod pob aelod o staff yr ysgol yn derbyn copi o'r polisi.**
- **Dylai'r ysgol gynhyrchu taflen ar gyfer cofnodi pwy a phryd y gwnaethpwyd yr arolygiad diogelwch o'r Bws Mini.**
- **Dylai'r Pennaeth gynhyrchu rhestr o'r gyrwyr sydd yn gymwys i yrru'r bysiau mini a'i chadw'n gyfredol.**
- **Dylid sicrhau fod yr ysgol yn archwilio tystysgrifau'r gyrwyr yn flynyddol gan gadw copi fel cofnod bod yr ysgol wedi gweld y trwyddedau.**

# TREFN ARCHEBU GWESTAI
## Adnoddau Dynol

<u>Bwriad yr Archwiliad</u>
Bwriad yr archwiliad yw sicrhau fod yr Uned Cefnogol wedi sefydlu trefniadau priodol ar gyfer archebu gwestai a bod swyddogion y Cyngor yn cydymffurfio â'r trefniadau hyn yn ogystal â sicrhau bod yr Uned Cefnogol wedi gweithredu ar y ceisiadau'n gywir.

<u>Cwmpas yr Archwiliad</u>
Adolygu effeithiolrwydd trefniadau Archebu Gwestai yr Uned Cefnogol drwy wirio sampl o archebion gwestai a gyflwynwyd yn ystod blwyddyn ariannol 2009/10 i sicrhau bod y ceisiadau'n rhesymol, a bod yr Uned Cefnogol yn gweithredu ar y ceisiadau yn gywir ac yn delio gydag ad-daliadau mewn dull priodol.

<u>Prif Ddarganfyddiadau</u>
Gwelwyd bod trefn wedi cael ei sefydlu o fewn yr Uned Cefnogol ar gyfer archebu gwestai ond bod rhaid i'r drefn cael ei orfodi er mwyn sicrhau bod swyddogion y Cyngor yn ei dilyn. Darganfuwyd bod llawer o swyddogion yn parhau i archebu gwestai eu hunain. Gwelwyd bod rhai swyddogion wedi defnyddio cerdyn credyd y Cyngor i archebu gwestai a'r gweddill wedi hawlio'r costau'n ôl drwy ffurflenni costau teithio sydd yn atal y Cyngor rhag ad-hawlio costau TAW. Gwelwyd hefyd bod llawer o'r ad-daliadau wedi cael eu codio yn erbyn y codau gwariant anghywir. Yn ogystal, ymddengys bod diffyg rheolaeth ar gyfer sicrhau bod y ceisiadau wedi cael eu hawdurdodi gan reolwr sydd â'r awdurdod i gymeradwyo'r ceisiadau.

### <u>Barn yr Archwiliad</u>

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Trefn Archebu Gwestai gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylai'r Uned Polisi Adnoddau Dynol ystyried ail-bwysleisio'r trefniadau priodol ar gyfer archebu gwestai i reolwyr y Cyngor a chodi ymwybyddiaeth o'r goblygiadau ariannol i'r Cyngor os nad yw derbynebau/anfonebau wedi eu cyfeirio at Cyngor Gwynedd.**

- **Dylid sicrhau mai ond Dalwyr y Cyllideb sydd ag awdurdod i gymeradwyo archebion gwestai, felly dylai bod yr Uned Cefnogol yn sicrhau bod rhestr o Ddalwyr Cyllideb y Cyngor ar gael i'r swyddogion brosesu'r ceisiadau.**

# ARCHWILIADAU IECHYD A DIOGELWCH
## Adnoddau Dynol

Bwriad yr Archwiliad
Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer Iechyd a Diogelwch Tân, bod y Gwasanaeth Eiddo yn cynnal asesiadau risg tân priodol sydd yn cydymffurfio â deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch a'r Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005. Sicrhau bod yr archwiliadau/ymweliadau rheolaethol yn cael eu cynnal gan yr ymgynghorwyr Iechyd a Diogelwch yn dilyn asesiadau risg tân, a bod trefniadau adrodd priodol yn bodoli.

Cwmpas yr Archwiliad
Archwilio trefniadau a pholisïau'r Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch mewn perthynas ag asesiadau risg tân. Adolygu ac adrodd ar effeithiolrwydd y trefniadau drwy wirio samplau o asesiadau tân sy'n gysylltiedig â gwaith a gynhaliwyd yn ystod 2009/10.

Prif Ddarganfyddiadau
Darganfuwyd bod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer cynnal asesiadau risg tân eiddo. Gwelwyd bod yr Uned Eiddo gyda systemau cyfrifiadurol priodol ar gyfer paratoi a dogfennu asesiadau risg a'u bod wedi cael eu cynnal mewn modd priodol. Fodd bynnag, darganfuwyd bod diffyg trefniadau cadarn ar gyfer comisiynu gwaith gan Ymgynghoriaeth Gwynedd oherwydd nad yw'r gweithdrefnau wedi eu sefydlu yn ffurfiol. Darganfuwyd nad oedd Ymgynghoriaeth Gwynedd yn ymateb i'r nodiadau briff cyn cychwyn y gwaith nac ychwaith yn hysbysu Eiddo ar bob achlysur i gadarnhau cwblhau'r gwaith, ac amlygwyd nad oedd y targedau gwaith yn derbyn y sylw priodol. Yn ogystal, oherwydd y methiant i ymateb i'r briff, nid oedd yr Uwch Syrfëwr Diogelwch Adeiladau yn ymwybodol o amcangyfrif a gwir gostau'r gwaith er bod y costau yn cael eu hawdurdodi gan reolwr y gyllideb sef y Rheolwr Cleientiaid - Eiddo ac Adeiladwaith.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yng ngweinyddiaeth Archwiliadau Iechyd a diogelwch gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid ffurfioli'r trefniadau ar gyfer ymateb i'r briff fel bod yr Uwch Syrfëwr Diogelwch Adeiladau yn sicr bod Ymgynghoriaeth Gwynedd yn diwallu anghenion y briff cyn cychwyn ar y gwaith ac yn paratoi amcangyfrif o'r gost.**

- **Dylai Ymgynhoriaeth Gwynedd sicrhau bod eu technegydd yn ymateb i'r briff drwy gwbwlhau'r datganiad o dan y pennawd 'Cyfyngiadau' ar y briff a'i ddychwelyd yn ôl i'r Uned Eiddo cyn cychwyn y gwaith ac os oes unrhyw broblemau yn codi, dylai bod y technegydd yn cyfathrebu'r hyn i'r Uned Eiddo fel eu bod yn ymwybodol o'r broblem fel y gellir cymryd camau i gywirio'r sefyllfa.**

- **Dylai'r Uwch Syrfëwr Diogelwch Adeiladau ystyried ymholi i'r posibilrwydd o dderbyn adroddiad mwy trylwyr o'r gwariant fel y gall fonitro'r gwariant yn y dyfodol.**

# CYTUNDEBAU ESCROW
## Corfforaethol

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yma yw adolygu'r cytundebau escrow mewn lle ar gyfer systemau'r Cyngor.

Cwmpas yr Archwiliad

Sefydlu pa gytundebau escrow sydd mewn lle ac asesu pa warantau sydd yn cael eu rhoi i'r Cyngor yn eu sgîl, gan werthuso os ydynt yn ddigonol i anghenion y gwasanaethau.

Prif Ddarganfyddiadau

Yn ystod gwaith maes yr archwiliad yma, gwelwyd mai nifer gymharol isel o systemau'r Cyngor sydd yn destun cytundeb escrow. Adnabwyd saith o systemau'r Cyngor oedd yn destun cytundeb escrow. Mae yn ofynnol bod y Cyngor yn talu symiau blynyddol er mwyn cynnal y cytundebau yma, ac yn 2009/10 gwelwyd fod cyfanswm o £4,540 (net) wedi ei dalu.

Ni welwyd tystiolaeth fod y cytundebau hyn wedi eu seilio ar asesiad o gyflenwyr y systemau dan sylw, yn hytrach ymddengys eu bod yn seiliedig ar arferiad y cyflenwyr neu'r swyddogion oedd wedi gosod y system yn ei le yn wreiddiol.

Mae bylchau cymharol sylweddol yn y mesurau parhad busnes sydd yn cael eu cynnig drwy'r cytundebau yma, ac mae'r archwilwyr o'r farn bod y Cyngor, drwy ei Wasanaeth Technoleg Gwybodaeth, yn cynnig o leiaf cystal sicrwydd drwy'r mesurau sydd mewn lle. Mae'r archwilwyr o'r farn nad yw'r telerau y mae'r Cyngor yn talu amdanynt yn cynnig gwerth am arian. Nid oes sicrwydd fod y fersiynau o'r codau sydd yn cael eu trosglwyddo yn gyflawn a chywir, ac felly nid oes sicrwydd y gellir eu defnyddio i ddatblygu'r systemau perthnasol yn ôl yr angen. Byddai angen taliadau ychwanegol os am gael y sicrwydd yma. Hyd yn oed petai'r côd yn gyflawn a chywir, ni fyddai'r asiant escrow mewn sefyllfa lle byddai yn ofynnol iddynt gynorthwyo'r Cyngor gyda'r broses adeiladu system o'r côd yn eu meddiant, a gyda'r cyflenwyr wedi terfynu masnachu, byddai angen i'r Cyngor neilltuo adnoddau sylweddol, cyllid a/neu amser, er mwyn bod mewn sefyllfa i weithredu wedi derbyn y côd.

Mae'n debygol y byddai'r gost o archebu gwiriad llawn yn waharddol i'w wneud yn ddichonadwy i'r Cyngor ar ben ei hun, felly y datrysiad fyddai i ymuno â defnyddwyr mewn sefydliadau eraill sydd yn defnyddio'r un systemau a rhannu'r gost gyda hwy.

Ni welwyd sicrwydd fod y fersiwn diweddaraf o'r côd wedi ei drosglwyddo gan gyflenwyr y systemau i feddiant yr asiant escrow ym mhob achos.

Nid oedd copi o'r cytundeb escrow llawn ym meddiant gweinyddwyr y systemau ym mhob achos.

Mae'r archwilwyr o'r farn bod angen i reolwyr y gwasanaethau sydd â system yn destun escrow asesu pa sicrwydd ychwanegol y maent yn ei gael drwy barhau i dalu'r symiau'n flynyddol, gan werthuso os ceir gwerth am arian a pha mor ymarferol yw'r trefniadau amgylchynol mewn gwirionedd wrth ystyried y mesurau parhad busnes sydd eisoes wedi eu gosod mewn lle.

**Barn yr Archwiliad**

**(C) Barn yr Archwiliad yw y na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn Cytundebau Escrow gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylai'r gwasanaethau sydd yn rhan o gytundeb escrow ar gyfer un neu fwy o'i systemau asesu pa gyfiawnhad sydd i barhau eu hadnewyddu yn flynyddol.**
- **Os am barhau i fod yn rhan o'r cytundebau escrow yma, byddai yn rhesymol lleoli neu feddiannu copi newydd o'r cytundebau a'i cymalau.**

# PRYDLONDEB TALU ANFONEBAU
## Corfforaethol

Bwriad yr Archwiliad
Diben yr archwiliad oedd adolygu prydlondeb talu anfonebau o fewn y Cyngor, gan ymchwilio ymhle ceir oediadau yn y gyfundrefn, a pham fod yr oediadau hyn yn bodoli.

Cwmpas yr Archwiliad
Dadansoddi'r holl daliadau a broseswyd gan yr Uned Taliadau ym mis Mehefin 2009 a Ionawr 2010; amlygu achosion ble roedd oediadau sylweddol yn bodoli cyn talu anfonebau, ynghyd â chasglu anfonebau er mwyn cymharu dyddiadau, megis dyddiad yr anfoneb, dyddiad dyledus, dyddiad tâl, dyddiad stamp ac yn y blaen, er mwyn gwirio beth oedd y rhesymau dros unrhyw oediadau.

Prif Ddarganfyddiadau
O'r ystadegau a gyfrifwyd, yn seiliedig ar yr echdyniad o'r manylion sydd wedi eu bwydo i mewn i'r System Ariannol, darganfuwyd bod llai na chwarter o'r anfonebau a dalwyd yn y misoedd a archwiliwyd wedi cael eu gwneud cyn y dyddiad taladwy o ddeg diwrnod ond bod dros tri chwarter ohonynt wedi eu talu o fewn 30 diwrnod i'w pwyntiau treth. Fodd bynnag, gwelwyd bod diffiniad y pwynt treth yn amrywio o wasanaeth i wasanaeth, gyda rhai yn defnyddio dyddiad yr anfoneb ac eraill y dyddiad derbyniwyd yr anfoneb yn y Cyngor.

Gwelwyd fod nifer o ffactorau yn amharu ar y broses o dalu anfonebau yn brydlon. Y prif ffactor yw bod diffyg trefniant o gofnodi dyddiad derbyn ar anfonebau sydd yn cael eu derbyn (stamp dyddiad derbyn er enghraifft) ac fel canlyniad, mae diffyg rheolaeth i sicrhau fod anfonebau yn cael eu prosesu yn effeithlon a'u talu yn brydlon. Gwelwyd sawl achos o anfonebau yn ymddangos fel petaent yn araf yn cael eu pasio at swyddogion perthnasol. Nid oedd modd datgelu pa rannau o'r broses yn union oedd yn achosi'r oedi, gan nad oedd trywydd amlwg cyson mewn lle. Nodwyd bod rhai anfonebau â hyd at 3 stamp, ond bod nifer heb un o gwbl, felly ni ellir dibynnu ar hyn i fod yn ddangosydd pendant. Fodd bynnag, mae'r achosion lle mae nifer o stampiau yn dynodi bod anfoneb wedi ei throsglwyddo i nifer o leoliadau cyn ei thalu.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yng ngweithdrefnau gwasanaethau'r Cyngor ar gyfer prydlondeb prosesu anfonebau gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Wrth dderbyn anfonebau, dylai'r Uwch Swyddog Taliadau atgoffa'r adrannau na ddylai gweithwyr y Cyngor adael i'r nifer o anfonebau gronni yn ormodol cyn eu hanfon ymlaen i'r Uned Taliadau.**

- **Er mwyn hybu cysondeb o fewn y Cyngor, a hefyd gwella dangosyddion prydlondeb talu anfonebau, dylid rhoi cyfarwyddyd y dylid defnyddio dyddiad y stamp derbyn fel y pwynt treth ar y Taleb Codio ym mhob achos, ac os nad oes stamp derbyn, yna dylid defnyddio dyddiad yr anfoneb.**

- **Rhaid codi ymwybyddiaeth o'r drefn derbyn a thalu anfonebau drwy osod canllawiau clir a chryno ar y mewnrwyd.**

- **Dylid sefydlu rhestr o godau ar gyfer gweithgareddau cyffredin, a sicrhau ei fod ar gael i bob swyddog yn y Cyngor, er mwyn ceisio sicrhau bod trafodion yn cael eu codio yn gywir ac yn gyson ar draws yr Awdurdod.**

# RHEOLAETH GYLLIDEBOL
## Corfforaethol

Bwriad yr Archwiliad
Diben yr archwiliad yw adolygu gweithdrefnau traws wasanaethau parthed cyllidebu a rheolaeth gyllidebol.

Cwmpas yr Archwiliad
Adolygu dogfennau a chofnodion cyllidebau refeniw ar gyfer y flwyddyn ariannol 2008/09 a 2009/10 gan gynnwys sefydlu cyllideb, gweithdrefn monitro perfformiad, prosesu trosglwyddiadau ("virements") a defnydd o system ariannol CedAr.

Prif Ddarganfyddiadau
Prif ddarganfyddiadau'r adroddiad oedd:

- Nifer o ddeilyddion cyllideb heb dderbyn hyfforddiant priodol mewn rheolaeth cyllideb nag ar y Cyfriflyfr er mwyn monitro'r gyllideb
- Llyfr Cyllideb ddim yn gosod atebolrwydd penodol am yr holl gyllidebau
- Adroddiadau Cyllideb yn cynnwys costau na ellid eu rheoli sy'n effeithio dealltwriaeth y gyllideb i swyddogion
- Effaith "mis Mawrth gwyllt" i'w weld yng ngwariant Cyngor Gwynedd.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Rheolaeth Gyllidebol gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod cyllidebau yn cael eu hadolygu yn fanwl a heriol er mwyn sicrhau bod unrhyw aneffeithlonrwydd yn cael ei dynnu o'r gyllideb.**
- **Dylid sicrhau bod holl swyddogion sy'n gyfrifol am reoli cyllideb yn mynychu hyfforddiant rheoli cyllideb neu yn cadarnhau bod ganddynt sgiliau priodol.**
- **Dylid safoni taflenni trosglwyddiadau TR293 ar draws yr Awdurdod gan ymgorffori priodweddau cyfredol Rheolau Gweithdrefn Ariannol.**
- **Dylid sicrhau bod cyfrifoldeb am gyllideb yn cael ei osod ar un swyddog fel bod modd sicrhau atebolrwydd.**
- **Dylid sicrhau bod swyddogion yn derbyn hyfforddiant ar y Cyfriflyfr (CedAr) os ydynt yn cael mynediad i'r system.**
- **Dylid egluro perthnasedd costau "non-controllable" megis llog damcaniaethol, grantiau gohiriedig ar adroddiad misol swyddogion fel bod dealltwriaeth o'r gyllideb yn cael ei helaethu.**
- **Dylid ceisio rhoi rheolaeth yn ei le i rwystro effaith "Mawrth gwyllt" (mad March) ar wariant Cyngor Gwynedd.**

# PARATOADAU AR GYFER IFRS - TREFNIADAU PROSIECT
## Cyllid

<u>Bwriad yr Archwiliad</u>
O'r flwyddyn ariannol 2010/11 ymlaen, mae gofyn i Awdurdodau Lleol gydymffurfio gyda IFRS - International Financial Reporting Standards (SAAR - Safonau Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol) wrth baratoi eu datganiadau ariannol. Bwriad yr archwiliad yma yw sicrhau bod Cyngor Gwynedd wedi paratoi am y newid yma, yn ogystal â sicrhau bod trefniadau digonol mewn lle er mwyn cyflawni'r gofynion newydd.

<u>Cwmpas yr Archwiliad</u>
Mae cwmpas yr archwiliad hwn yn cynnwys adolygu trefniadau'r Cyngor wrth baratoi i fabwysiadu IFRS, gan gynnwys gwirio dyletswyddau swyddogion perthnasol, trefniadau a chofnodion hyfforddiant, gwirio bod cynllun manwl lefel uchel wedi ei baratoi a'i ddilyn a chadarnhau bod asesiadau risg ynghylch mabwysiadu'r safonau newydd wedi'i gynnal. Ni fydd yr archwiliad yn cynnwys trefniadau i ddelio â materion penodol a fydd yn destun archwiliadau ar wahân.

<u>Prif Ddarganfyddiadau</u>
Gwelwyd fod y Cyngor wedi paratoi yn drylwyr tuag at fabwysiadu IFRS. Fodd bynnag, nid yw aelodau'r Pwyllgor Archwilio wedi derbyn hyfforddiant yn y maes, er mai hwy sydd gyda'r ddyletswydd o gymeradwyo'r cyfrifon ar ddiwedd y flwyddyn.

**<u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(A) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn Paratoadau ar gyfer IFRS - Trefniadau Prosiect gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle. Mae un argymhelliad:**

- **Addasu cynnwys cwrs hyfforddiant 'Cyllid Llywodraeth Lleol' i aelodau'r Pwyllgor Archwilio er mwyn cynnwys gofynion IFRS i sicrhau eu bod yn gwbl gyfarwydd â gofynion y safonau newydd.**

# TENDR BANCIO
## Cyllid

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod trefniadau priodol wedi eu cymryd yn y broses o dderbyn ac wrth asesu tendrau bancio'r Cyngor.

Cwmpas yr Archwiliad

Holi'r swyddogion perthnasol sydd yn gyfrifol am baratoi'r tendr am ddiweddariad o'r broses tendr bancio, gan gynnwys gwybodaeth ar y sail y bydd y tendrau'n cael eu hasesu i sicrhau eu bod wedi cymryd camau priodol a'u bod yn gyson â'r amserlen a chynlluniwyd. Yn ogystal â hynny, mynychu'r cyfarfod asesu tendrau i sicrhau bod y tendrau'n cael eu hasesu mewn modd priodol.

Canlyniad Gweithrediad

Penderfynodd y Cyngor i ddilyn gweithdrefn agored wrth dendro. Gwelwyd bod y gwahoddiad i dendr a'r rhybudd cytundeb wedi cael ei gyhoeddi ar-lein ar safle "etenderwales" ar y 18fed o Fehefin yn unol â phroses canllawiau'r OJEU.

Derbyniodd yr Archwiliwr fanylion sail sgorio'r tendrau yn ystod y broses mynd i dendr. Roedd sail asesu'r tendrau wedi ei benderfynu ar yr hyn sydd yn cael ei brosesu gan y Cyngor ar hyn o bryd a bod pwyslais y sgoriau ar yr elfennau fwyaf hanfodol, h.y. y gwasanaethau y bydd y Cyngor yn ei ddefnyddio fwyaf gan y banc. Gwelwyd bod y matrics sgorio wedi cael ei gynllunio ar sail 4 elfen. Roedd yr elfennau a dyraniad y sgôr fel y ganlyn:

1. Medru cwrdd ag anghenion gwasanaethau craidd :40%
2. Prisiau cyfrif a threth wefredig : 30%
3. Presenoldeb cangen (neu'n gyfartal) yn y prif leoliad gwasanaethau :20%
4. Ansawdd gwasanaeth : 10%

Gwelwyd bod holiadur technegol wedi cael ei ddylunio ar gyfer sgorio elfennau 1 a 4. Roedd 50 o farciau wedi cael eu rhannu yn erbyn pob cwestiwn ar yr holiadur technegol. Dyluniwyd holiadur masnachol i bwrpas sgorio elfen 2, oedd yn ofynnol i'r banciau eu cwblhau a gofynnwyd i'r banciau nodi pa leoliadau y maent yn gweithredu ar gyfer sgorio elfen 3.

Yn ôl y wybodaeth ar y matrics sgorio a'r dogfennau tendr a welwyd, roedd yr archwiliwr o'r farn fod y sgorio ar gyfer y tendrau yn ymddangos yn rhesymol.

Gwelwyd hefyd, fod panel asesu tendrau wedi ei sefydlu a oedd yn cynnwys yr Uwch Dechnegydd Cyllid Cyfalaf a Rheolaeth, y Prif Gyfrifydd Cyfalaf, yr Uwch Rheolwr Cyllid, a chynrychiolydd o'r uned Refeniw, ac yn ogystal gwahoddwyd cynrychiolydd o Archwilio Mewnol a Chyfreithiol i arsylwi'r broses.

Mae telerau ac amodau y cynnig llwydiannus yn cael eu hadolygu gan yr Uned Gyfreithiol, ac os yw popeth yn dderbyniol ac yn cyd-fynd â gofynion a rheoliadau'r Cyngor, bydd y Cyngor mewn sefyllfa i wobrwyo cytundeb gwasanaeth bancio am y pum mlynedd nesaf, o'r 1af o Hydref.

**Barn yr Archwiliad**

**(A) Barn yr archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd bod camau priodol wedi eu cymryd ar gyfer paratoi, asesu tendrau a gwobrwyo cytundeb gwasanaeth bancio'r Cyngor.**

# BRYN AFON
## Darparu a Hamdden

Bwriad yr Archwiliad

Sicrhau fod trefniadau ariannol a diogelwch Bryn Afon yn briodol ac yn unol â rheolau a gweithdrefnau'r Cyngor tra'n caniatáu'r cleientiaid i fyw'n lled-annibynnol.

Cwmpas yr Archwiliad

Archwilio'r prif feysydd gwariant ac incwm yn 2009/10 yn ôl y Cyfriflyfr Ariannol ynghyd â threfniadau rheolaeth y tŷ.

Prif Ddarganfyddiadau

Darganfuwyd rhai enghreifftiau cryf o ymarfer da o fewn trefniadau rheolaethol a gweinyddol Bryn Afon. Fodd bynnag, mae enghreifftiau o weithredu yn groes i weithdrefnau'r Cyngor. Oherwydd hyn, dylid cymryd y camau priodol i gryfhau'r trefniadau o fewn y maes a archwiliwyd.

**Barn yr Archwiliad**

**(C) Barn yr Archwiliad yw y na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn Bryn Afon gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid addasu ffurflenni meddyginiaethau'r cleientiaid i gynnwys dau flwch llofnod fel bod dau aelod o staff yn gallu cadarnhau bod y dos cywir wedi ei gymryd.**
- **Dylid sicrhau bod y canllawiau tân yn cael eu gosod i fyny yn y tŷ fel eu bod yn weledol i staff.**
- **Dylid sicrhau bod y rhestrau eiddo yn cynnwys canran perchnogaeth y cleientiaid yn ogystal â gwerth unrhyw eiddo dros £100 yn y dyfodol.**
- **Dylid sicrhau bod y "Taflen Cofnodi Arian Personol" yn cael ei gwblhau yn llawn ac yn cael ei arwyddo ai ddyddio i sicrhau trywydd archwilio.**
- **Dylid llunio canllawiau hawlio treuliau gwyliau sydd i gynnwys lwfansau ar gyfer hawlio am gynhaliaeth i ofalwyr a sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu yn y dyfodol.**
- **Dylid sicrhau bod y gofalwr yn gofyn am dderbynneb ac yn ei gyflwyno ar bob achlysur.**

# CARTREFI PRESWYL - CRONFEYDD ANSWYDDOGOL
## Darparu a Hamdden

Bwriad yr Archwiliad
Bod trefniadau digonol mewn lle i sicrhau fod unrhyw gyfrif answyddogol/ymddiriedolaethol mewn Cartrefi Preswyl yn gywir.

Cwmpas yr Archwiliad
Sicrhau fod cyfarwyddyd priodol wedi ei roi i Swyddogion ar sut i ymdrin â Cronfeydd Answyddogol/ymddiriedolaethol ac archwilio'r trefniadau gwirioneddol mewn cyfran o gartrefi preswyl y Cyngor. Gwiriwyd y flwyddyn ariannol bresennol a'r flwyddyn ariannol 2008/09.

Prif Ddarganfyddiadau
Ar y cyfan gwelwyd fod trefniadau priodol mewn lle, ond bod rhai agweddau angen sylw. Cynhaliwyd profion ar 21 o feysydd rheolaeth fewnol yn y gwasanaeth. Dangosodd y profion bod rheolaethau mewnol da yn bodoli mewn 10 o'r meysydd hyn.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Cartrefi Preswyl - Cronfeydd Answyddogol gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod gan bob cartref ganllawiau ar sut i weinyddu Cronfeydd Ymddiriedolaethol a Chronfeydd Answyddogol.**

- **Dylid cyflwyno'r canllawiau "Gweinyddu Cronfeydd Ymddiriedolaethol a Chronfeydd Answyddogol" i'r swyddogion addas er mwyn cael eu cymeradwyo a sicrhau eu bod yn cyrraedd gofynion yr adran.**

- **Pan mae'r canllawiau ar "Weinyddu Cronfeydd Ymddiriedolaethol a Chronfeydd Answyddogol" yn cael eu hanfon i'r Cartrefi dylid sicrhau bod cofnod yn nodi pwy sydd wedi derbyn hyfforddiant ar y canllawiau h.y. wedi eu derbyn, darllen a'u deall.**

- **Mae'n bwysig ar ôl i'r cartrefi dderbyn canllawiau gweinyddu cronfeydd ymddiriedolaethol a chronfeydd answyddogol eu bod yn eu dilyn er mwyn lleihau'r risg o gamddefnydd neu dwyll.**

- **Awgrymir derbyn barn swyddogol gan yr Uned Gyfreithiol ar y sefyllfa ble mae 21 allan o 22 gronfa ymddiriedolaethol heb un ai ewyllys neu weithrediad ymddiriedolaethol.**

- **Dylid sicrhau bod cysondeb wrth gofrestru'r cronfeydd fel elusen gan nad oes un ohonynt yn cyrraedd y meini prawf ac felly nid oes angen eu cofrestru fel elusen.**

# CYDYMFFURFIAETH GYDA GOFYNION COCO (PARTH GCSx)
## Gofal Cwsmer

Bwriad yr Archwiliad
Pwrpas yr archwiliad oedd adolygu'r rheolaeth o'r parth GCSx.

Cwmpas yr Archwiliad
Adolygwyd gosodiadau polisïau y parth, rheolaeth mynediad cyffredinol a rheolaeth cyfrifon defnyddwyr.

Prif Ddarganfyddiadau
Mae rhai materion yn codi o waith maes yr archwiliad sydd angen sylw gan weinyddwyr y parth.
Nid yw polisi y parth gyda gwerth ar gyfer trothwy cloi cyfrif, sydd yn golygu y gellir gwneud nifer anfeidraidd o ymgeision i ddyfalu cyfrinair heb gloi'r cyfrif. Mae hyn yn cynyddu'r sgôp ar gyfer gweithredu ymosodiad llwyddiannus.
Nid yw'r gosodiadau logio o fewn y Polisi Rheolydd Parth yn cynnwys ymgeisiadau aflwyddiannus i gael mynediad. Byddai digwyddiadau fel ymgeisiadau aflwyddiannus i gael mynediad i'r parth yn gallu bod yn ddefnyddiol er mwyn adnabod gweithrediadau maleisus ac felly dylid ei logio a'i adrodd i'r staff ymchwilio perthnasol.
Mae cyfrifon sy'n ymddangos fel petaent yn ddiddefnydd sydd heb eu hanablu. Mae unigolion sydd â lluosrif o gyfrifon, rhai ohonynt heb eu defnyddio. Mae'r cofnodion yma wedi eu tynnu i sylw'r Gwasanaeth TG ac maent angen sylw.

**Barn yr Archwiliad**

**(C) Barn yr archwiliad yw na ellir datgan sicrwydd ar y rheolaeth o'r parth GCSx. Mae'r prif argymhellion yn y cynllun gweithredu fel a ganlyn:**

- **Dylid adolygu'r gosodiadau presennol ar gyfer cloi defnyddwyr o fewn y polisi parth diofyn, a dylid rhoi ystyriaeth i osod nifer rhesymol o ymgeisiadau aflwyddiannus cyn cloi cyfrifon, dylai'r nifer fod rhwng 3 a 5.**
- **Dylid gwerthuso'r gweithdrefnau ar gyfer rheoli defnyddwyr y parth GCSx a dylid adolygu'r materion yn codi o waith maes yr archwiliad, fel mai ond cyfrifon priodol sydd yn gallu cael mynediad i adnoddau'r parth.**
- **Dylid addasu'r polisi rheolydd parth y GCSx fel ei fod yn cynnwys ymgeisiadau aflwyddiannus i gael mynediad i'r parth ynghyd â'r rhai llwyddiannus.**

# PATRYMAU GWARIANT GWASANAETHAU ANABLEDD DYSGU
## Gwasanaethau Cymdeithasol

Bwriad yr Archwiliad

Sefydlu'r rhesymau dros y gwahaniaeth cynyddol rhwng y gyllideb ar gyfer gwasanaethau Anabledd Dysgu a'r gwariant yn y maes hwn. Ymhellach, adolygu'r camau a gymerwyd oddi mewn i Adran y Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn ymdrin â'r gorwariant ymddangosiadol.

Cwmpas yr Archwiliad

Mae'r archwiliad yn adolygu'r rheswm dros y cynnydd yn y gwariant ym maes Anabledd Dysgu, gan ddadansoddi'r newidiadau yn niferoedd y clientiaid sydd yn derbyn gofal, neu resymau eraill dros y gorwariant a welir. Ni fydd yr archwiliad yn adolygu pecynnau gofal unigol, nac yn mynegi barn ar addasrwydd y pecynau gofal a roddir.

Mae gwariant Anabledd Dysgu wedi ei gyfyngu i godau gwariant sydd yn cychwyn GN (Arfon), GP (Dwyfor), GR (Meirionnydd) a GS (Canolog).

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd mai elfen allweddol sydd yn cyfrannu at y gorwariant ar wasanaethau Anabledd Dysgu, a'r un a ragwelir ar gyfer 2010/11, yw gwariant ar gartrefi preswyl annibynnol ac yn arbennig felly gan ardal Arfon. Gwelwyd fod mwyafrif y penawdau eraill yn agos at y gyllideb.
Derbyniwyd cadarnhad annibynnol fod gwybodaeth am nifer y cleientiaid yn RAISE yn annibynadwy ar gyfer y cyfnod cyn 2008/09, a nid oes modd cael gwybodaeth am gostau fesul cleient allan o'r system heb gynnal cyfrifiadau ar wahân, fesul cleient.
Gwelwyd fod grwp wedi ei sefydlu er mwyn adolygu gwariant ar wasanaethau Anabledd Dysgu, a bydd y gwasanaeth yn adolygu'r holl becynau gofal er mwyn mynd i'r afael â'r cynnydd sylweddol mewn gwariant sydd wedi digwydd mewn cyfnod cymharol fyr.
Ni welwyd fod bid refeniw wedi ei gyflwyno i ymdopi â'r cynnydd gwariant gan fod yr Adran yn ei gyfanrwydd yn tanwario. Bu'n rhaid sicrhau cyllideb ychwanegol i'r Gwasanaeth Anabledd Dysgu ar gyfer 2010/11 trwy adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol ar y Strategaeth Ariannol, yn hytrach na thrwy'r broses 'bidio' arferol.

**Barn yr Archwiliad**

**Mewn ymateb i'r cynnydd sylweddol mewn costau llety yn 2009/10, mae cyllideb ychwanegol wedi ei ganiatau i'r Gwasanaeth Anabledd Dysgu ar gyfer 2010/11 ymlaen. Fodd bynnag, nid yw trefniadau o'r fath yn gynaladwy, a gwelwyd fod y Gwasanaethau Cymdeithasol yn y broses o sefydlu tim i adolygu achosion. Ni ellir oedi cyn y bydd y tim yma yn cychwyn ar ei waith.**

# TREFNIADAU APWYNTÎ A DIRPRWYAETH
## Gwasanaethau Cymdeithasol

Bwriad yr Archwiliad
Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod Gwasanaethau Cymdeithasol yn cydymffurfio gydag ymarfer da, bod gweithdrefnau priodol yn bodoli ar gyfer Apwyntî a Dirprwyaeth a bod y gwariant yn briodol.

Cwmpas yr Archwiliad
Archwilio gweithdrefnau Apwyntî a Dirprwyaeth yr Adran a chadarnhau bod y gweithdrefnau a sefydlwyd yn seiliedig ar ymarfer da. Dewis sampl a gwirio bod y camau cywir wedi eu dilyn a bod gwariant yn briodol.

Prif Ddarganfyddiadau
Ar y cyfan, darganfuwyd enghreifftiau cryf o ymarfer da o fewn trefniadau rheolaethol a gweinyddol Swyddfa Rheoli Asedau Cleientau. Fodd bynnag, gwelwyd gwendidau mewn meysydd penodol lle'r oedd angen tynhau trefniadau. Darganfuwyd nad oedd rhai camau wedi eu dilyn wrth gynilo arian cleientiaid, rhannu gwybodaeth, ffeilio, cofnodi gwariant a chyflwyno derbynebau.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn nhrefniadau apwyntî a dirprwyaeth gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod y Gweithiwr Cymdeithasol yn anfon copi o'r cynllun gofal i'r Swyddfa Rheoli Asedau Cleientau wrth gyfeirio cleient ymlaen a bod y copi hwnnw wedi ei arwyddo ganddo/ganddi.**

- **Dylid sicrhau bod copi o gynllun gofal y cleient yn cael ei gadw ar bob un ffeil fel bod y swyddfa yn ymwybodol o beth yw anghenion y cleient ac i weld os yw'r incwm yn cyfateb i anghenion y cleient.**

- **Dylid llunio polisi ar gynilo arian cleientiaid a glynu ato yn y dyfodol.**

- **Dylid glynu at y canllawiau sydd wedi eu nodi o fewn y Polisi Rheoli Arian Cleientau, gan gymryd sylw arbennig o bwynt 4.2.1 a phwynt 4.2.2 sy'n ymwneud a rheoli cyfrifon cleientiaid.**

- **Dylid diweddaru'r Polisi Rheoli Arian Cleientau cyn gynted a phosib i sicrhau ei bod yn gyfredol.**

- **Dylid sicrhau fod datganiadau banc cleientiaid yn cael eu harwyddo bob tro i gadarnhau bod gwiriadau priodol wedi cymryd lle.**

# RHEOLAETH FFLYD
## Priffyrdd a Bwrdeistrefol

<u>Bwriad yr Archwiliad</u>
Bwriad yr archwiliad yw sicrhau bod gan yr Uned Fflyd rheolaeth briodol ar gerbydau Cyngor Gwynedd.

<u>Cwmpas yr Archwiliad</u>
Cwmpas yr archwiliad yw adolygu trefniadau'r Uned Fflyd fel bod rheolaeth ar berfformiad rheoli'r fflyd. Adolygu trefniadau'r Uned ar gyfer pwrcasu, prydlesu a llogi cerbydau er mwyn sicrhau eu bod yn unol â Rheolau Gweithdrefn. Sicrhau bod cofnodion yr Uned yn gyfredol ar gyfer pob cerbyd sydd yn ei meddiant a bod cerbydau Cyngor Gwynedd yn effeithiol ac yn cynnig y gwerth gorau am arian. Yn ychwanegol edrychir ar y rheolaethau mae'r Uned wedi ei roi yn ei le gogyfer hyfforddi gyrrwr i ddefnyddio fflyd Cyngor Gwynedd yn ddiogel a phriodol.

<u>Prif Ddarganfyddiadau</u>
Prif ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd :

- Nad yw'r Uned Fflyd yn hysbysu'r Uned Yswiriant a Rheoli Risg pan fydd cerbyd yn cael ei logi am fwy na phythefnos er mwyn sicrhau gwarchodaeth yswiriant digonol;
- Awgrym cychwynnol y byddai llogi ceir yn rhatach na thalu lwfans teithio i swyddogion ar deithiau sylweddol;
- Cofrestr o drwyddedau gyrwyr fflyd Cyngor Gwynedd ddim yn gyfredol.
- Diffyg polisi sy'n manylu'r defnydd mae gweithwyr yn cael ei wneud o fflyd y Cyngor tu allan i oriau gwaith.

**<u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn yr Uned Fflyd gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau bod yr Uned Fflyd yn hysbysu'r Uned Yswiriant a Rheoli Risg ar bob achlysur pam fydd cerbyd yn cael ei logi am fwy na phythefnos.**

- **Dylid parhau i hyrwyddo defnydd o logi ymysg swyddogion Cyngor Gwynedd.**

- **Dylid cynnal a chadw cofrestr o drwyddedau gyrru holl weithwyr sy'n defnyddio fflyd y Cyngor. Dylid gwirio'r trwyddedau yn gyfnodol er mwyn sicrhau eu dilysrwydd cyfredol.**

- **Dylai Adrannau Cyngor Gwynedd edrych ar yr achosion ble mae gweithwyr wedi derbyn dwy neu fwy o ddamweiniau mewn blwyddyn er mwyn asesu os oes angen ailhyfforddi'r gyrrwr perthnasol.**

- **Dylid asesu defnyddioldeb ac amser anghynhyrchiol cerbydau "bychain" neu gerbydau "off-contract" er mwyn gwarantu bod Cyngor Gwynedd yn gwneud y defnydd mwyaf effeithlon o'r fflyd.**

- **Dylid llunio polisi sy'n manylu'r defnydd mae gweithwyr yn cael ei wneud o fflyd y Cyngor tu allan i oriau gwaith.**

**GWARCHOD Y CYHOEDD - DEFNYDD FLARE; RHEOLI GWAITH**
**Rheoleiddio (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd)**

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad fydd adolygu effeithlonrwydd system gyfrifadurol Flare ar gyfer rheoli gwaith Gwarchod y Cyhoedd.

Cwmpas yr Archwiliad

Cwmpas yr archwiliad fydd adolygu rheolaethau cymhwysiad system Flare, yn ogystal â defnyddioldeb y system wrth dderbyn, cofnodi a rheoli gwaith ymatebol Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd.

Prif Ddarganfyddiadau

Gwelwyd ar y cyfan fod enghreifftiau o ymarfer da yn y broses o ddefnyddio Flare a rheoli gwaith a bod gweithdrefnau newydd eu rhoi mewn lle o fewn y Tîm Difa Pla. Fodd bynnag, gwelwyd fod gwendid yn y canlynol:

- Dim ond un swyddog sydd wedi ei apwyntio fel gweinyddwr ar y system Flare;
- Anghenion hyfforddiant swyddogion maes Difa Pla ar sut i ddefnyddio PDA.
- Oedi rhwng amser cwblhau gwaith a dyddiad codi anfonebau.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Gwarchod y Cyhoedd - Defnydd Flare a Rheoli Gwaith gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid fod mwy nag un swyddog gyda hawliau gweinyddol ar gyfer y system FLARE (ond mwyafrif o dri) fel y gellid dirprwyo swyddogaethau yn absenoldeb y Rheolwr Systemau Gweithredol.**
- **Dylai lleiafswm hyd cyfrinair fod yn chwe chymeriad.**
- **Dylid sicrhau fod swyddogion maes y Tîm Difa Pla yn derbyn hyfforddiant ar sut i ddefnyddio Flare ar PDA.**
- **Dylid sicrhau fod ffeiliau Swyddfa Ardal Meirionnydd yn cael eu cadw'n gyfoes a bod dogfennau cyfrinachol yn cael eu dinistrio wedi iddynt fynd heibio'u cyfnodau cadw yn unol â rhestr gadw'r Cyngor ac unrhyw Ddeddfau perthnasol.**
- **Dylid ystyried cael trefn mewn lle o fewn y Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd i gadw cofrestr o fuddiannau staff.**
- **Dylid sicrhau fod anfonebau'n cael eu codi cyn i'r gwaith cael ei wneud. Ble nad yw hyn yn ymarferol, dylid sicrhau fod anfonebau'n cael eu codi'n brydlon.**
- **Dylid cael trefn mewn lle i gynnal gwiriadau i sicrhau fod anfoneb wedi ei chodi ar gyfer gwaith perthnasol.**

# TRWYDDEDAU TACSIS
## Rheoleiddio (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd)

<u>Bwriad yr Archwiliad</u>
Bwriad yr archwiliad yw sicrhau fod rheolaethau mewnol priodol yn bodoli o fewn yr Uned Drwyddedu i liniaru'r risgiau sy'n ymwneud â thrwyddedu tacsis.

<u>Cwmpas yr Archwiliad</u>
Gwirio'r broses o weinyddu a dyroddi'r mathau gwahanol o drwyddedau sy'n ymwneud â thacsis a sicrhau cydymffurfiaeth gyda pholisïau a deddfau perthnasol.

<u>Prif Ddarganfyddiadau</u>
Gwelwyd ar y cyfan fod rheolaethau mewnol da yn bodoli wrth weinyddu trwyddedau hacni a hurio preifat ar draws ffiniau'r Awdurdod. Fodd bynnag, gwelwyd fod ychydig o wendidau lle gellid tynhau ar y rheolaethau.

**<u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Trwyddedau Tacsis gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau fod pob ymdrech yn cael ei wneud i dderbyn gwybodaeth gan y cwmnïau tacsi yn amserol a ni ddylid dyroddi trwyddedau heb dderbyn yr oll wybodaeth sydd ei angen.**
- **Dylid sicrhau fod archwiliadau mecanyddol yn cael eu cynnal ar gerbydau hacni a hurio preifat yn unol â'r Polisi a bod tystiolaeth, o hynny'n cael ei gadw ar ffeil.**
- **Dylid sicrhau fod pob gyrrwr gyda gwiriad CRB cyfredol (h.y. fod gwiriadau'n cael eu gwneud pob 3 blynedd).**
- **Awgrymir y dylid sicrhau nad oes enw neu wybodaeth lle gellir adnabod unigolyn yn cael ei ddangos ar dystiolaeth achos trwyddedu tacsi mewn rhaglen Bwyllgor.**
- **Dylid sicrhau bod tystiolaeth gadarn o sut y detholwyd modurdai wrth benodi modurdy ar gyfer archwiliadau mecanyddol.**
- **Dylai'r Swyddogion Trwyddedu ddinistrio'r gwiriadau CRB 6 mis wedi iddynt eu derbyn.**
- **Dylid sicrhau fod pob swyddog sy'n delio gyda gwybodaeth bersonol yn mynychu cwrs hyfforddiant ar Ddeddf Diogelu Data 1998. Awgrymir hefyd y byddai efallai'n ddoeth i sicrhau bod y swyddogion sydd wedi derbyn hyfforddiant eisoes yn derbyn hyfforddiant fel 'refresher'.**

# GORCHMYNION FFYRDD
## Rheoleiddio (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd)

<u>Bwriad yr Archwiliad</u>
Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod rheolaethau mewn lle gogyfer mabwysiadu gorchmynion traffig ar ffyrdd sirol Cyngor Gwynedd. Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n gyfrifol am orchmynion traffig ar gefnffyrdd Gwynedd.

<u>Cwmpas yr Archwiliad</u>
Cwmpas yr archwiliad fydd adolygu gweinyddiaeth creu a mabwysiadu gorchmynion traffig ar ffyrdd sirol yng Ngwynedd.

<u>Prif Ddarganfyddiadau</u>
Prif ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd :

- Cyfarwyddiadau a anfonir at yr Uned Gyfreithiol yn anghywir.
- Diffyg polisi a chanllawiau sy'n dogfennu'r drefn ar gyfer penderfynu gweithredu a mabwysiadu cyfyngiadau cyflymder yng Ngwynedd.
- Anodd olrhain hanes gweithrediad gorchymyn oherwydd y drefn ffeilio o fewn yr Uned Trafnidiaeth a Gofal Stryd.
- Ymddengys nad yw'r gwersi o gamgymeriadau achos Maesgeirchen yn 2006 wedi eu dysgu.

**<u>Barn yr Archwiliad</u>**

**(C)** **Barn yr Archwiliad yw y na ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol yn nhrefniadau'r Adran Rheoleiddio gogyfer creu a gweithredu Gorchmynion Ffyrdd gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau mai drwy lythyr neu e-bost yn unig y derbynnir ceisiadau am adolygu cyflymder safle.**
- **Dylid sicrhau fod pob cais am adolygu cyflymder yn cael ei gofnodi ar fas data pwrpasol.**
- **Dylid sefydlu canllawiau sy'n dogfennu'r drefn ar gyfer penderfynu, gweithredu a mabwysiadu cyfyngiadau cyflymder yng Ngwynedd.**
- **Dylid sefydlu trefn ffeilio fesul gorchymyn er mwyn galluogi olrhain unrhyw benderfyniad parthed gweithredu neu wrthod cais am newid cyfyngiadau cyflymder yn rhwydd.**
- **Dylid sicrhau fod tystiolaeth yn bodoli i gefnogi unrhyw benderfyniad am wrthod neu osod gorchymyn gan y Rheolwr.**
- **Dylai'r Uned Trafnidiaeth a Gofal Stryd sicrhau fod y cyfarwyddiadau a anfonir at yr Uned Gyfreithiol yn gywir.**
- **Dylai'r Uned Traffig a Gofal Stryd fod yn ymwybodol fod angen cadw ffeiliau gwaith gorchmynion parhaol am 25 mlynedd a ffeiliau gorchmynion dros dro am 7 mlynedd.**

## PARTNERIAETH GAFFAEL GOGLEDD CYMRU
### Strategol a Gwella

Bwriad yr Archwiliad

Bwriad yr archwiliad yw sicrhau fod Partneriaeth Gaffael Gogledd Cymru'n gweithredu'n effeithiol, gan sicrhau fod y rhaglen waith yn cwrdd ag anghenion y cynghorau, bod rheolaeth briodol ar gyfer gweithredu'r cynlluniau unigol a bod y trefniant/cytundebau a sefydlwyd yn derbyn sylw gan y cynghorau; yn ogystal â sicrhau fod arbedion effeithlonrwydd yn cael eu gwireddu. Dylid nodi nad yw'r archwiliad yn adolygu trefniadau'r prosiectau unigol o ran y penderfyniad ynghylch y drefn tendro, gwirio cynnwys y ddogfen tendro a.y.b.

Cwmpas yr Archwiliad

Adolygwyd trefniadau'r Bartneriaeth o benderfynu, cymeradwyo, gweithredu ac yna monitro'r rhaglen waith, yn ogystal â chadarnhau bod defnyddwyr o fewn y cynghorau wedi eu hysbysu o'r amodau sydd wedi eu cytuno gyda'r cyflenwr, a bod y cynghorau'n defnyddio'r trefniant.

Prif Ddarganfyddiadau

Cynhaliwyd profion archwilio ar 42 rheolaeth fewnol. Dangosydd y profion fod rheolaethau mewnol da yn bodoli yn 21 o'r meysydd, a rheolaethau mewnol boddhaol mewn 10 o'r meysydd. Un o amcanion y Bartneriaeth yw cyflymu'r gwelliant ac effeithlonrwydd mewn mentrau caffael ar y cyd. Nid yw hyn wedi digwydd ym mhob achos.

Mae disgwyliad i reolwyr caffael corfforaethol y cynghorau adolygu'r ddogfen strategaeth pwrcasu ar gyfer pob prosiect er mwyn sicrhau bod y trefniant arfaethedig yn gynaliadwy i'r cynghorau. Fodd bynnag, gwelwyd nad yw'r swyddogion yn derbyn y dogfennaeth ym mhob achos.

Gwelwyd nad oes trefniadau ar gyfer monitro defnydd y cynghorau o'r fframwaith neu'r cytundebau sydd wedi eu sefydlu. Mynegodd Pennaeth Grwp Caffael Gogledd Cymru iddo hysbysu'r rheolwyr categori y dylid canolbwyntio ar gwblhau prosiectau yn ystod cyfnod cychwynol y Bartneriaeth ac yna gweithredu monitro rheolaethol y prosiectau.

**Barn yr Archwiliad**

**(B) Barn yr Archwiliad yw y gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol yn Partneriaeth Gaffael Gogledd Cymru gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau. Mae prif argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau fod y rhaglen waith yn cwrdd ag amcanion y Bartneriaeth sef cyflymu gwelliant a effeithlonrwydd o fenter caffael cydweithio.**
- **Dylid creu canllaw ynghylch trefn y Bwrdd Gweithredu o gytuno ar ddogfen strategaeth gaffael.**
- **Dylai'r Bwrdd Rheoli benderfynu ar ba trefniadau monitro cytundebau sydd yn briodol ar gyfer y Bartneriaeth, er mwyn sicrhau defnydd priodol o'r cytundebau/fframwaith.**

# GORWARIANT YSGOL TANYGRISIAU
## Addysg

Pwrpas yr Archwiliad
Yn unol â chais y Pennaeth Cyllid archwiliwyd rheolaethau cyllidol yn Ysgol Tanygrisiau ynghyd â'r gweithdrefnau yr Uned Gyllid Datblygu. Gwnaethpwyd hyn oherwydd rhagwelwyd gorwariant sylweddol erbyn diwedd flwyddyn gyllidol 2009/10.

Cwmpas yr Archwiliad
Archwiliwyd y trafodion ariannol a wnaethpwyd yn ystod 2007/08, 2008/09 a 2009/10 a chofnodion cyfarfodydd corff llywodraethol ar gyfer blynyddoedd 2007, 2008 a 2009.

Prif Ddarganfyddiadau
Y prif ddarganfyddiadau yn deillio o'r archwiliad yw bod cyfnod rhwng Gorffennaf 2007 a Gorffennaf 2008 lle na chynhaliwyd cyfarfod o'r Is-Banel Cyllid na'r Corff Llawn a hynny mewn amser lle'r oedd gyllideb yr ysgol mewn sefyllfa ddyrys iawn. Yn ystod y cyfnod yma gallai'r Corff Llawn fod wedi trafod a chychwyn ar y broses o ddelio â gwariant.

**Barn yr Archwiliad**

**Mae'r archwiliwr o'r farn y dylai'r ysgol fod wedi mynd drwy'r broses o ddelio â gwariant cyn mis Medi 2009 gan y gallai hyn fod wedi lleihau ffigyrau gorwariant yr ysgol. Ni ddylai fod yr ysgol wedi disgwyl hyd nes bod y Cyn-Bennaeth yn ymddeol i wneud arbediad. Mae'r argymhellion fel a ganlyn:**

- **Dylid sicrhau fod trafodaeth pellach yn cael eu cynnal rhwng y Pennaeth presennol a swyddogion y Cyngor er mwyn cytuno ar strategaeth i glirio gweddill y ddyled.**

- **Dylai'r Corff Llawn ystyried pob pennawd cyllidol yn ofalus iawn, er mwyn sicrhau fod cyllidebau realistig wedi cael eu gosod cyn iddynt dderbyn y gyllideb.**